| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **1 Mai 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Julian Thompson Hill / Hywyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gerry Lapington** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am reoli Iechyd a Diogelwch o fewn Cyngor Sir Ddinbych fel y gwelir o safbwynt y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

## 2. Beth yw’r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth ynglŷn â’r diweddariad blynyddol ar reoli Iechyd a Diogelwch o fewn Cyngor Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fe ddylai’r pwyllgor adolygu'r adroddiad a gwneud sylwadau ar weithgareddau a sylwadau'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

### 4.1 Crynodeb

4.1.1 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym ni wedi gweld rhai newidiadau cadarnhaol yn y diwylliant diogelwch o fewn Cyngor Sir Ddinbych. Mae hyn wedi bod yn arbennig o amlwg ym meysydd y gwasanaethau cymdeithasol lle rydym ni wedi derbyn llawer o geisiadau am hyfforddiant, cefnogaeth a chyngor. Yn ogystal â hyn mae newid go iawn wedi digwydd o fewn Priffyrdd, yn bennaf oherwydd y farwolaeth yng Nghonwy ym mis Medi 2013 a'r ymchwiliad cysylltiedig gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

4.1.2 Mae newid sylweddol wedi bod o ran hyfforddiant a monitro gweithle, ac mae hyn yn ei dro wedi gwneud y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn fwy gweladwy ac yn haws i bobl fynd atynt. Un o'r tasgau anodd oedd argyhoeddi pobl ein bod ni yno i'w helpu ac ein bod yn ymgynghorwyr ac yn hwyluswyr, nid rheoleiddwyr.

4.1.3 Yn gyffredinol, mae'r HSE yn ystyried Cyngor Sir Ddinbych fel Cyngor sydd â diwylliant diogelwch cadarnhaol sy'n datblygu ac ar rai achlysuron mae ein gwaith wedi ei ystyried fel arfer da e.e. ein methodoleg Arweinyddiaeth Gref, ein proses rheoli asbestos mewn tai a'n prosesau rheoli dŵr agored. Er yr holl bethau da, mae'n rhaid i ni barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu diwylliant diogelwch cadarnhaol a darparu offer i helpu rheolwyr i gyflawni eu dyletswyddau statudol a sicrhau bod pawb yn ddiogel yn y gwaith.

4.1.4 Rydym ni hefyd yn parhau i ymateb i ddigwyddiadau a cheisiadau am gymorth. Mae hon yn elfen bwysig o'r hyn a wnawn ond mae hefyd yn dreth gyson ar ein hadnoddau.

4.1.5 Er ein bod wedi gweld gwelliannau sylweddol o ran rheoli Iechyd a Diogelwch, rydym ni yn parhau i ddod o hyd i wendidau mewn systemau rheoli lleol. Mae'n rhaid i ni barhau i ddatblygu a chefnogi'r broses i wella rheoli Iechyd a Diogelwch.

### 4.2 Cefndir

4.2.1 Yn 2011 rhoddodd yr HSE dasg i chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru i wella eu systemau rheoli Iechyd a Diogelwch drwy broses a elwir yn "Arweinyddiaeth Gref". Roedd y broses hon yn sicrhau bod yr Awdurdodau yn cydymffurfio â rheoliad 5 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (MHSWR) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr wneud a rhoi trefniadau o'r fath ar waith fel y bo'n briodol, gan ystyried natur a maint ei weithgareddau, ar gyfer cynllunio, trefnu, rheoli, monitro ac adolygu mesurau ataliol ac amddiffynnol.

4.2.2 Bu i Gyngor Sir Ddinbych gynllunio, datblygu a gweithredu proses i fodloni gofynion y rheoliad penodol yma. Mae adborth yr HSE ar ein methodoleg a'n prosesau wedi bod yn gadarnhaol ac mae ein trefnau wedi eu rhannu gydag Awdurdodau Lleol eraill gogledd Cymru.

4.2.3 Dechreuodd proses Cyngor Sir Ddinbych gyda dadansoddiad perygl a bwlch o'r risgiau Iechyd a Diogelwch ar lefel gorfforaethol, gwasanaeth, ysgol a lefel tîm. Defnyddiwyd gwybodaeth o'r dadansoddiad i ddatblygu dull newydd o weithio ar gyfer y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, dull sy'n cefnogi rheolwyr atebol a thimau yn well a dull sy'n cefnogi diwylliant Iechyd a Diogelwch gadarnhaol ar draws Cyngor Sir Ddinbych. Mae Atodiad 1 yn dangos enghraifft o ddadansoddiad perygl a bwlch.

4.2.4 O ganlyniad i'r dadansoddiad rydym ni wedi creu tudalen we Iechyd a Diogelwch, datblygu rhaglen hyfforddiant mewnol Iechyd a Diogelwch ac wedi gwneud ein hunain yn fwy gweladwy trwy ymgymryd â gweithgareddau monitro a chynnal ymweliadau safle.

4.2.5 Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn sgil y dadansoddiad perygl a bwlch wedi galluogi'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i gynllunio rhywfaint o'i lwyth gwaith. Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhaglen gwaith i'r dyfodol a rhaglen hyfforddiant y tîm ar gyfer 2014.

### 4.3 Hyfforddiant 2013 \ 2014

4.3.1 Cyn 2013 prynwyd y rhan fwyaf o hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gan asiantaethau eraill. Er bod hyfforddiant proffesiynol fel arfer yn cynnwys achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol, mae'n gostus (tua £950 y dydd) ac yn tueddu i fod yn gyffredinol. Mae aelodau o'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar yr un lefel broffesiynol â darparwyr hyfforddiant allanol ac felly rydym ni bellach yn darparu'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn defnyddio ein hadnoddau ein hunain. Mae'r newid hwn wedi ein galluogi i wneud yr hyfforddiant yn benodol i'r Cyngor a'i dimau yn ogystal ag arbed arian. Yr unig broblem gyda'r dull hwn yw nad yw'r hyfforddiant wedi ei gydnabod yn genedlaethol; fodd bynnag, rydym ni'n alinio'r hyfforddiant i gyd-fynd â safonau cydnabyddedig ac yn cynnwys logo Cyngor Sir Ddinbych ar ein tystysgrifau.

4.3.2 Mae cryn dipyn o gyngor a hyfforddiant gyrru yn cael ei roi gan ein Ymgynghorydd Risg Ffordd. Mae'r hyfforddiant yma'n canolbwyntio ar yrwyr cerbydau fflyd, fodd bynnag cynigir cymorth yn ôl yr angen.

4.3.3 Enghreifftiau o gyrsiau a ddarperir yn fewnol:

- Rheoli diogel yng Nghyngor Sir Ddinbych. Cwrs deuddydd ar gyfer rheolwyr, goruchwylwyr a staff
- Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch. Egwyddorion ac arferion rheoli diogelwch ar gyfer gweithwyr
- Asesu risg. Cwrs undydd ymarferol ar gyfer gweithwyr
- Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr ar gyfer gyrwyr proffesiynol
- Ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân. Cwrs ar gyfer rheolwyr adeiladu, rheolwyr safle ysgol
- Codi a Symud yn Gorfforol. Cwrs byr 2 awr ar gyfer gweithwyr
- Cyflwyniad Corfforaethol. Fel rhan o’r broses sefydlu gorfforaethol
- Rheoli diogelwch mewn cartref gofal.
- Sylweddau peryglus, lleoedd cyfyng, diogelwch adeiladu, cyrsiau byr

### 4.4 Monitro

4.4.1 Mae Rheoliad 5 o MHSWR yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fonitro sut mae Iechyd a Diogelwch yn cael ei reoli mewn gwirionedd. Isod ceir rhai enghreifftiau o weithgareddau monitro sydd wedi eu cynnal gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn ystod 2013 \ 2014 yn seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn sgil y dadansoddiad:

- Cartrefi gofal annibynnol i gefnogi Gwasanaethau Oedolion a Busnes
- Canolfannau gorffwys brys i gefnogi'r uned cynllunio rhag argyfwng ar y cyd.
- Rheoli bacteriwm clefyd y lleng filwyr mewn systemau dŵr tai cymdeithasol
- "Rheolaeth bacteriwm clefyd y lleng filwyr mewn systemau dŵr" gan y Gwasanaethau Eiddo
- Rheoli cryptosporidiwm mewn pyllau nofio Cyngor Sir Ddinbych.
- Trefniadau diogelwch cyffredinol Gofal Iechyd Cefndy
- Rheoli asbestos mewn tai sy’n cael eu hadnewyddu. Mae'r ardal hon yn cael ei arolygu yn ddiweddarach gan yr HSE a ddarparodd adborth cadarnhaol iawn.
- Rheoli diogelwch dŵr agored (yn dilyn marwolaeth yn Sir y Fflint). Unwaith eto fe dderbyniodd Cyngor Sir Ddinbych adborth cadarnhaol gan yr HSE
- Systemau gweithwyr sy’n gweithio ar eu pen eu hunain yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Un o ganfyddiadau sylweddol y dadansoddiad peryglon a bylchau oedd bod angen rheolaethau cadarnach ar gyfer rheoli gweithwyr sy’n gweithio ar eu pen eu hunain ar lefel tîm. Mae hyn wedi arwain at adolygu “Canllawiau a Gweithdrefnau” Gweithwyr sy’n Gweithio ar eu pen eu hunain y Gwasanaethau Cymdeithasol.

4.4.2 Mae monitro ar y lefel gorfforaethol yn un elfen o'r broses fonitro. Cynghorir uwch reolwyr a rheolwyr atebol i barhau i fonitro gweithgareddau dan eu rheolaeth.

### 4.5 Diogelwch Tân

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych dîm rheoli diogelwch tân mewnol sy'n cynnal asesiadau risg tân (Awdurdodau Tân ac Achub) ar holl gyfleusterau Cyngor Sir Ddinbych. Mae rhaglen hyblyg o adolygiadau Awdurdod Tan ac Achub yn ei lle. Mae hyblygrwydd y rhaglen yn ein galluogi ni i ymateb yn adweithiol i geisiadau gan y rheoleiddiwr neu ffynonellau eraill. Mae adborth y Gwasanaeth Tân, sef y rheoleiddiwr, yn parhau i fod yn gadarnhaol.

### 4.6 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

4.6.1 Rydym ni’n cysylltu’n rheolaidd gydag arolygwyr yr HSE. Er bod yr HSE wedi rhoi adborth cadarnhaol i ni ar nifer o achlysuron mae’n rhaid i ni beidio â bod yn hunanfodlon. Gallai un methiant ddadwneud yr holl waith da.

4.6.2 Dylid nodi bod yr HSE bellach yn gweithredu proses "ffi ar gyfer ymyrraeth". Os ceir achos o dorri'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch codir tâl ar y sefydliad tramgwyddus. Y gost yw £124 yr awr.

### 4.7 Cofrestr Amddiffyn Staff

Mae hon yn broses sy'n tynnu sylw at unigolion neu gyfeiriadau ble'r ystyrir bod bygythiad Iechyd a Diogelwch sylweddol i weithwyr Cyngor Sir Ddinbych.
Mae'r Gofrestr Amddiffyn Staff wedi ei gosod ar systemau Cyngor Sir Ddinbych a bydd ar gael cyn bo hir ar y fewnrwyd. Mae'r system newydd a'r broses gysylltiol yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

### 4.8 Rhoi Gwybod am Ddamweiniau / Digwyddiadau

4.8.1 Gellir mynd at y ffurflen rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau ar y fewnrwyd. Mae'r broses yn cael ei rheoli gan y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, ac mae'r holl ddata yn cael ei gadw yn electronig ar y system EDRMS.

- Mae ein gallu o ran adrodd ystadegau cyfredol yn wan. Mae CIVICA ers peth amser bellach wedi bod yn gweithio gyda TGCh i ddatblygu ein gallu i wneud hyn. Mae'r ystadegau o ran damweiniau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014 ar gael yn Atodiad 3

### 4.9 Ysgolion

4.9.1 Mae statws anarferol ysgolion o ran Iechyd a Diogelwch yn peri risg anghymesur i Gyngor Sir Ddinbych o ystyried lefel y risg. Mae ysgolion yn gallu defnyddio eu strwythurau rheoli o bell a chyllidebau dirprwyedig mewn ffordd sy'n lleihau dylanwad canolog. Rydym ni'n ceisio lliniaru'r risgiau i bobl mewn ysgolion ac i Gyngor Sir Ddinbych ar lefel gorfforaethol drwy ddarparu ystod o gyrsiau hyfforddi, dogfennau arweiniad, cefnogaeth bersonol ac ymweliadau safle. E.e. bu i ni gynnal rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch yn ddiweddar ar gyfer staff arlwyo.

4.9.2 Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r rheolwyr busnes ar gyfer y clystyrau ac rydym ni'n ymchwilio i unrhyw ddigwyddiad lefel RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus) a gofnodwyd gan ysgolion.

### 4.10 Strwythur Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae strwythur y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi ei adolygu a'i addasu. Y prif resymau dros y newidiadau yw darparu arbedion a chyfleoedd datblygu ac i'n helpu ni gadw staff a chynnig gwasanaeth proffesiynol. Mae hyn wedi ei gyflawni er nad yw'r prosesau Adnoddau Dynol ffurfiol wedi eu cwblhau eto.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r wybodaeth yn cyfrannu at ddealltwriaeth y cyngor o'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch.

## 6 Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes costau ychwanegol wedi eu canfod. Mae'r tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cefnogi holl wasanaethau Cyngor Sir Ddinbych.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y gweithgareddau presennol ac nid yw'n cael effaith andwyol ar gydraddoldeb.

**8 Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**
Ymgynghorwyd ag Aelod Arweiniol Iechyd a Diogelwch, Swyddog Arweiniol Iechyd a Diogelwch a Phennaeth y Gwasanaeth.

**9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae hwn yn adroddiad diweddaru ac felly nid oes effaith ariannol uniongyrchol.

**10 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd y Cyngor o ran lleihau risgiau Iechyd a Diogelwch.

**11 Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Mae Adran 2 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i ni rannu gwybodaeth yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch ac i adolygu mesurau Iechyd a Diogelwch.